TGAU

# CBAC TGAU
# Hanes

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

## Canllawiau Addysgu: Uned 4

Addysgu o 2026

Dyfarnu o 2028

Fersiwn 2 - Chwefror 2025



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan
Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

## Cynnwys

Cyflwyniad ..... 1
Nodau'r Canllawiau Addysgu ..... 1
Ffyrdd ychwanegol y gall CBAC gynnig cymorth: ..... 1
Strwythur y cymhwyster ..... 2
Asesu ..... 3
Crynodeb o'r Asesu ..... 3
Amcanion asesu a phwysoli Uned 4 ..... 3
Trosolwg o Uned 4 ..... 4
Asesu ..... 9
Paratoi ar gyfer yr Asesiad ..... 9
Cwblhau'r asesiad ..... 10
Profiadau Dysgu ..... 11
Cyfleoedd i ymgorffori sgiliau trawsgwricwlaidd a themâu trawsbynciol y Cwricwlwm i Gymru ..... 12

© WJEC CBAC Ltd. 2025

# CRYNODEB O'R ADDASIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 2 | Addaswyd i, dyfarnu am y tro cyntaf yn Haf 2028 | 1 |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Cyflwyniad

Mae CBAC TGAU Hanes wedi'i gymeradwyo gan Cymwysterau Cymru ac mae ar gael i bob canolfan yng Nghymru. Bydd yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn Haf 2028, gan ddefnyddio graddau A* i G.

### Nodau'r Canllawiau Addysgu

Prif nod y Canllawiau Addysgu yw cefnogi athrawon wrth iddynt gyflwyno manyleb newydd CBAC TGAU Hanes a chynnig arweiniad ar ofynion y cymhwyster a'r broses asesu. **Ni fwriedir i'r Canllawiau Addysgu fod yn ddogfen gynhwysfawr i gyfeirio ati** ond yn hytrach i gynnig cefnogaeth i athrawon proffesiynol wrth ddatblygu cyrsiau ysgogol a chyffrous sydd wedi'u teilwra i anghenion a sgiliau'r dysgwyr.

### Ffyrdd ychwanegol y gall CBAC gynnig cymorth:

- deunyddiau asesu enghreifftiol a chynlluniau marcio
- digwyddiadau dysgu proffesiynol
- adroddiadau arholwyr ar bob uned
- y gallu i gysylltu'n uniongyrchol â’r swyddog pwnc
- adnoddau ar-lein am ddim
- Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau
- Adolygu Arholiadau Ar-lein.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Strwythur y cymhwyster

Mae CBAC TGAU Hanes yn cynnwys pedair uned. Rhaid i'r cyfuniad o opsiynau a ddewiswyd ar gyfer Unedau 1, 2 a 3 gynnwys un uned oesoedd canol, un uned fodern gynnar ac un uned fodern.

Yn Uned 4, gall canolfannau ddewis ailadrodd cyfnod amser a astudiwyd yn flaenorol yn Unedau 1, 2 neu 3. **Fodd bynnag, ni ddylai'r testunau a ddewisir ar gyfer eu hastudio yn Uned 4 ailadrodd na gorgyffwrdd â chynnwys unrhyw un o'r unedau eraill a ddewisir.**

Cymhwyster unedol yw hwn ac nid yw'n cynnwys haenau. Nid oes hierarchaeth o ran trefn dysgu'r unedau.

| | **Teitl yr uned** | **Math o Asesiad** | **Pwysoli** |
|---|---|---|---|
| **Uned 1** | Astudiaeth fanwl o hanes Cymru | Arholiad ysgrifenedig | 30% |
| **Uned 2** | Astudiaeth fanwl o hanes Ewrop a/neu'r Byd | Asesiad Di-arholiad | 20% |
| **Uned 3** | Astudiaeth o gyfnod yn hanes y byd | Arholiad ysgrifenedig | 30% |
| **Uned 4** | Cymdeithas sy'n newid | Asesiad Di-arholiad | 20% |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

# Asesu

## Crynodeb o'r Asesu

| **Uned 4: Cymdeithas sy'n newid**<br>***Asesiad di-arholiad*: 4 awr 15 munud**<br>**20% o'r cymhwyster**<br>**80 marc** |
|---|
| Bydd dysgwyr yn astudio digwyddiadau â thema benodol o fewn cyfnod parhaus o tua 75–tua 100 mlynedd o hanes. Rhaid i'r digwyddiadau a astudiwyd fod yn ddigwyddiadau o ynysoedd Prydain Fawr a/neu Iwerddon.<br><br>Ar gyfer yr aseiniad, bydd dysgwyr yn cynnal ymholiad hanesyddol, gan ddangos dealltwriaeth o newid dros y cyfnod.<br><br>Ni ddylai'r testunau a ddewisir ar gyfer asesiad di-arholiad ailadrodd na gorgyffwrdd â chynnwys unrhyw un o'r unedau a ddewisir ar gyfer yr arholiad. |

Bydd dysgwyr yn cael eu hasesu drwy ymholiad hanesyddol pum cam, a fydd yn canolbwyntio ar **ddwy** o'r naw thema gosod.

Bydd CBAC yn gosod y **ddwy** thema a fydd yn ffocws yr ymholiad, a fydd yn newid bob blwyddyn.

Bydd y themâu yn cael eu cyhoeddi ar borth CBAC yn ystod wythnos gyntaf mis Medi i'w hasesu yn y flwyddyn academaidd honno.

## Amcanion asesu a phwysoli Uned 4

| | | |
|---|---|---|
| AA2 | Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth at gysyniadau hanesyddol megis achos a chanlyniad, parhad a newid, tebygrwydd a gwahaniaeth, ac arwyddocâd | 5% |
| AA3 | Dadansoddi, gwerthuso neu wneud penderfyniadau ar ddeunydd ffynhonnell, dehongliadau hanesyddol a dadleuon hanesyddol, gan syntheseiddio'r llinynnau hyn lle bo hynny'n briodol | 5% |
| AA4 | Dewis, defnyddio a chymhwyso sgiliau a thechnegau yn ymarferol i ymgymryd ag ymholiadau hanesyddol. | 10% |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Trosolwg o Uned 4

**Cymdeithas sy'n newid**
(20% o'r cymhwyster)

Pwrpas yr uned hon yw rhoi cipolwg ar brofiadau gwahanol pobl drwy astudio digwyddiadau â thema benodol dros gyfnod amser estynedig. Mae profiadau'r bobl sy'n cael eu hastudio wedi'u cyfyngu i ynysoedd Prydain Fawr a/neu Iwerddon.

Bydd yr uned yn seiliedig ar y cysyniadau canlynol:
- parhad a newid
- nodweddion sy'n debyg ac yn wahanol
- arwyddocâd ac effaith
- achos a chanlyniad.

## Cynllunio eich uned

Mae canolfannau yn gyfrifol am ddylunio eu cwrs astudio eu hunain ar gyfer Uned 4.

**Cyfnod**
Rhaid i ganolfannau ddewis cyfnod parhaus o tua 75–100 mlynedd. Gall hwn fod o gyfnod yr Oesoedd Canol/Modern Cynnar neu Fodern.

**Lleoliad**
Gall canolfannau benderfynu cwmpasu ardal benodol fach (er enghraifft, un ddinas neu wlad) neu ardal ehangach (er enghraifft, gwlad neu wledydd) ar gyfer cwrs astudio'r uned hon. Rhaid i'r lleoliad(au) sydd wedi'i gynnwys/wedi'u cynnwys yn yr uned hon fod yn lleoliadau o fewn ynysoedd Prydain Fawr a/neu Iwerddon.

**Cynnwys**
Rhaid i gynnwys yr uned hon fod wedi'i gynllunio o amgylch y naw thema gorfodol y gellir eu haddysgu mewn unrhyw drefn. Fel a ganlyn:
- diwylliant
- cydraddoldeb ac anghydraddoldeb
- ethnigrwydd
- cydberthynas y gwledydd
- heddwch a gwrthdaro
- gwleidyddiaeth
- crefydd
- rhyw, rhywioldeb a rhywedd
- materion cymdeithasol ac economaidd.

Ar gyfer pob thema, dylai dysgwyr ddeall pwnc hanesyddol penodol. Bydd yr athro yn nodi'r pynciau hyn. Nodwch y gallwch addasu hyd yr amserlen er mwyn rhoi dealltwriaeth o newid i ddysgwyr. Er y gallwch fynd ychydig dros yr amserlen, ni allwch leihau'r nifer gofynnol o 75 mlynedd yn sylweddol.

Ar gyfer Hanes yr Oesoedd Canol, efallai y byddwch am addysgu effaith Concwest y Normaniaid ar ynysoedd Prydain Fawr. I wneud hyn, byddech yn penderfynu ar y cyfnod penodol yr hoffech ganolbwyntio arno. Gallai hwn fod rhwng tua 1060 a thua 1153, a fydd wedyn yn cael ei rannu yn naw pwnc hanesyddol penodol. Bydd pob un o'r rhain yn cyfrannu at ddealltwriaeth o sut cafodd Cymru a Lloegr eu trawsnewid yn y cyfnod hwn.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

Ar gyfer Hanes Modern Cynnar, efallai y byddwch am addysgu sut newidiodd y Tuduriaid Gymru a Lloegr. I wneud hyn, byddech yn penderfynu ar y cyfnod penodol yr hoffech ganolbwyntio arno. Gallai hwn fod rhwng tua 1450 a thua 1600, a fydd wedyn yn cael ei rannu yn naw pwnc hanesyddol penodol. Bydd pob un o'r rhain yn cyfrannu at ddealltwriaeth o sut datblygodd gwleidyddiaeth, cymdeithas a chrefydd yng Nghymru a Lloegr yn y cyfnod hwn.

Ar gyfer Hanes Modern, efallai y byddwch am addysgu Yr Ugeinfed Ganrif – Chwyldro Cymdeithasol? I wneud hyn, byddech yn penderfynu ar y cyfnod penodol yr hoffech ganolbwyntio arno. Gallai hwn fod rhwng 1900 a 1980, a fydd wedyn yn cael ei rannu yn naw pwnc hanesyddol penodol. Bydd pob un o'r rhain yn cyfrannu at ddealltwriaeth o newid cymdeithasol yn y cyfnod hwn.

Ceir enghreifftiau o'r rhain yn y wybodaeth am becynnau ystafell ddosbarth ar dudalen 10.

**Ni ddylai'r pynciau hanesyddol a ddewisir orgyffwrdd â'r pwnc hanesyddol a ddewisir ar gyfer Uned 1.** Er enghraifft, os bydd dysgwyr wedi astudio 1.1 Rhys ap Gruffudd, Tywysog Deheubarth tua 1132–tua 1197 ar gyfer Uned 1, ni allant hefyd astudio'r pwnc hanesyddol hwn yn Uned 4.

Dylid defnyddio pedair eitem i gefnogi addysgu pob thema [1](sef **dwy** ffynhonnell a **dau** ddehongliad hanesyddol), gan wneud cyfanswm o 36 o eitemau ar draws yr Uned. Ar gyfer yr asesiad, bydd athrawon yn dewis **pymtheg** o'r eitemau a addysgwyd, yn unol â'r canllawiau paratoi i asesu yn y ddogfen hon, er mwyn i'r dysgwyr eu defnyddio.

Dylai fod yn bosibl i addysgu'r uned hon mewn tua 20 awr (heb gynnwys amser asesu). Dylid ystyried hyn wrth ddewis testunau hanesyddol ar gyfer pob thema.

[1] **Eitemau** fydd y term a ddefnyddir mewn asesiadau i labelu darnau penodol o gynnwys, gan gwmpasu ffynonellau cyfoes a dehongliadau hanesyddol. Bydd angen i ddysgwyr nodi beth sy'n ffynhonnell a beth sy'n ddehongliad.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Ystyriaethau y Cwricwlwm i Gymru

Wrth wneud penderfyniadau ar bynciau hanesyddol i'w cynnwys, gall canolfannau ystyried sut gallai fod yn briodol integreiddio'r themâu trawsbynciol canlynol yn yr uned hon, yn unol â chwricwlwm eu hysgol.

**Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol**
Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn meithrin eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddigwyddiadau hanesyddol penodol ar draws cyfnod estynedig ar raddfa leol, genedlaethol a rhyngwladol. Gall canolfannau ddewis pynciau hanesyddol sy'n ehangu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad dysgwyr o hunaniaeth, treftadaeth a hanes Cymru a'r byd ac i ddatblygu ymdeimlad o gynefin.[2]

**Cynaliadwyedd**
Dylai canolfannau ystyried a oes cyfleoedd priodol i ystyried cynaliadwyedd o fewn yr amrywiaeth o bynciau a ddewisir.

**Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb**
Gall canolfannau ymgorffori'r thema drawsbynciol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb drwy ganolbwyntio ar themâu rhyw, rhywioldeb a rhywedd, a chydraddoldeb ac anghydraddoldeb yn yr uned hon.

**Addysg Hawliau Dynol ac Amrywiaeth**
Gall canolfannau ymgorffori'r thema drawsbynciol Addysg Hawliau Dynol ac Amrywiaeth drwy ganolbwyntio ar themâu ethnigrwydd, crefydd, cydraddoldeb ac anghydraddoldeb, diwylliant a chysylltiadau rhyngwladol.

**Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Byd Gwaith**
Gall canolfannau ymgorffori'r thema trawsbynciol Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Byd Gwaith drwy ganolbwyntio ar y thema materion cymdeithasol ac economaidd, gan alluogi dysgwyr i ddysgu am yrfaoedd y gorffennol.

Bydd dysgwyr hefyd yn meithrin sgiliau trosglwyddadwy a fydd yn eu helpu i baratoi ar gyfer astudiaethau yn y dyfodol a'r byd gwaith. Er enghraifft, yn Uned 4, bydd natur annibynnol yr asesiad hwn yn galluogi dysgwyr i ddatblygu gwydnwch. Bydd dysgwyr yn meithrin eu gallu i ddatrys problemau, i feddwl yn rhesymegol ac i wneud penderfyniadau. Drwy fyfyrio ar eu perfformiad, bydd dysgwyr yn dysgu o brofiad.

[2] Mae “cynefin” yn derm a ddiffinnir gan y Cwricwlwm i Gymru fel ‘y lle y teimlwn ein bod yn perthyn iddo, mae'r bobl a'r tirwedd yno'n rhywbeth cyfarwydd i ni, ac mae'r hyn rydym yn ei weld a'i glywed yn ein cofleidio wrth i ni eu hadnabod.’

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Dod o hyd i dystiolaeth briodol

Mae'n bwysig ymgorffori amrywiaeth o fathau o eitemau o fewn ac ar draws y pecyn addysgu (y pecyn o 36 o eitemau), fel bod dysgwyr yn gyfarwydd â ffynonellau a dehongliadau gwahanol ac yn meddu ar y sgiliau i'w dadansoddi a'u gwerthuso.

Mae CBAC yn diffinio ffynonellau yn ddarnau o dystiolaeth sy'n perthyn i'r un cyfnod â'r mater neu'r digwyddiad sy'n cael ei drafod. Fodd bynnag, yn ddibynnol ar y cyfnod dan sylw, mae rhai gwahaniaethau o ran categoreiddio:

- ar gyfer cwestiynau hanes modern, mae'n rhaid bod ffynonellau wedi eu creu ar adeg benodol y digwyddiad
- ar gyfer cwestiynau hanes modern cynnar, mae'n rhaid bod ffynonellau wedi'u creu yn ystod y cyfnod sy'n agos i'r digwyddiad
- ar gyfer cwestiynau yr oesoedd canol a hanes cynnar, mae'n rhaid bod ffynonellau wedi'u creu yn ystod cyfnod ehangach y digwyddiad.

Gall ffynonellau gymryd amrywiaeth o ffurfiau, er enghraifft dogfennau ysgrifenedig, tystiolaeth ddarluniadol, neu ddisgrifiadau ar lafar; fodd bynnag, rhaid iddynt gadw at y canllawiau sy'n berthnasol i'r cyfnod o hanes a ddewiswyd ar gyfer Uned 4.

Mae CBAC yn diffinio dehongliadau fel safbwyntiau ar fater sy'n ddadl hanesyddol
- gallant gynnig safbwyntiau ysgol o feddwl sefydledig, ond nid yw hyn yn ofynnol
- gallant fod yn safbwyntiau hanesydd sefydledig, ond nid yw hyn yn ofynnol
- gallant fod yn ddehongliadau gan, er enghraifft, gwleidyddion, newyddiadurwyr, gwneuthurwyr rhaglenni dogfen, awduron, neu gyfarwyddwyr
- dylai dehongliadau fyfyrio ar y digwyddiad/mater yn y cwestiwn sy'n dangos fod cyfnod o amser wedi mynd heibio rhwng y digwyddiad a ffurfio'r dehongliad.

### Addasu iaith

Gall fod angen i ganolfannau ddiwygio, addasu neu grynhoi eitem er mwyn gwneud y geiriad yn fwy hygyrch i ddysgwyr. Rhaid nodi lleoliad yr eitem wreiddiol yn y pecyn ystafell ddosbarth a'r pecyn asesu.

### Ble i ddod o hyd i eitemau priodol

Gall canolfannau ddod o hyd i eitemau defnyddiol i'w defnyddio yn eu huned ar y llwyfannau canlynol:
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru [National Library of Wales - Llyfrgell Genedlaethol Cymru]
- Casgliad y Werin Cymru [Y Casgliad | Casgliad y Werin Cymru]
- Archifau Cymru [Archifau Cymru]
- British History Online [Front | British History Online (british-history.ac.uk)]
- The National Archives [The National Archives]

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Pecynnau ystafell ddosbarth enghreifftiol

Rydym wedi llunio tri phecyn addysgu enghreifftiol i ddangos sut gallai athrawon gynllunio'r uned. Mae bob un o'r pecynnau hyn yn cynnwys testun hanesyddol i bob thema, a phedair eitem (ddwy ffynhonnell a dau ddehongliad) i gefnogi pob testun.

Mae'r pecynnau hyn yn dangos y mathau o ffynonellau a dehongliadau a fyddai o’r math a hyd priodol, ac yn cynnig yr her priodol, ar gyfer addysgu'r uned hon. Maent i'w cael ar dudalen TGAU Hanes gwefan CBAC.

| | |
|---|---|
| **Yr Oesoedd Canol** | Effaith y Goncwest Normanaidd ar ynys Prydain Fawr tua 1060–tua 1153. |
| **Modern Cynnar** | Sut newidiodd y Tuduriaid Ynysoedd Prydain. |
| **Modern** | Yr Ugeinfed Ganrif – Chwyldro Cymdeithasol? |

### Adnoddau eraill

Mae gan Y Brifysgol Agored gwrs ar-lein am ddim o'r enw *Y Gymru Gyfoes.* Galla hwn fod yn adnodd gwerthfawr i athrawon sy'n dewis y cyfnod modern ar gyfer yr uned hon. Mae'r cwrs hwn ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg: Contemporary Wales: Introduction | OpenLearn - Open University / Y Gymru Gyfoes: Cyflwyniad | OpenLearn - Open University

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Asesu

Bydd dysgwyr yn cael eu hasesu drwy ymholiad hanesyddol pum cam, a fydd yn canolbwyntio ar **ddwy** o'r naw thema gosod.

Bydd CBAC yn gosod y **ddwy** thema a fydd yn ffocws yr ymholiad, a fydd yn newid bob blwyddyn.

Bydd y themâu yn cael eu cyhoeddi ar borth CBAC yn ystod wythnos gyntaf mis Medi i'w hasesu yn y flwyddyn academaidd honno.

Ar gyfer yr ymholiad pum can, bydd dysgwyr yn:
Cam 1: Dewis y cwestiwn, adolygu'r dystiolaeth ac yn ffurfio rhagdybiaeth
Cam 2: Adolygu a dadansoddi'r dystiolaeth (eitemau) yn feirniadol
Cam 3: Cynllunio'r ymateb
Cam 4: Datblygu'r ymateb
Cam 5: Adfyfyrio'n feirniadol ar y broses y maent wedi ymgymryd â hi a'r casgliad y maent wedi'i gyrraedd.

## Paratoi ar gyfer yr Asesiad

Yn ystod y cwrs, bydd dysgwyr wedi mynd i'r afael â phedair eitem fesul thema yn yr ystafell ddosbarth (dwy ffynhonnell hanesyddol a dau ddehongliad). O blith yr eitemau hyn (cyfanswm o 36), bydd 15 yn cael eu dewis gan y ganolfan fel y pecyn tystiolaeth y bydd dysgwyr yn ei ddefnyddio yn eu hasesiadau. Bydd y rhain yn cynnwys pedair eitem ar gyfer pob un o'r ddwy thema osod, ac un eitem ar gyfer pob un o'r saith thema arall.

Er enghraifft, os bydd **Diwylliant** a **Gwleidyddiaeth** yn cael eu dewis fel y themâu gosod un flwyddyn, byddai'r 15 eitem wedi'u dewis ar gyfer y pecyn o dystiolaeth i'w hasesu fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| **Diwylliant**<br>Dwy ffynhonnell<br>Dau ddehongliad | **Cydraddoldeb ac anghydraddoldeb**<br>Un ffynhonnell NEU ddehongliad | **Ethnigrwydd**<br>Un ffynhonnell NEU ddehongliad |
| **Cysylltiadau rhyngwladol**<br>Un ffynhonnell NEU ddehongliad | **Heddwch a gwrthdaro**<br>Un ffynhonnell NEU ddehongliad | **Gwleidyddiaeth**<br>Dwy ffynhonnell<br>Dau ddehongliad |
| **Crefydd**<br>Un ffynhonnell NEU ddehongliad | **Rhyw, rhywioldeb a rhywedd**<br>Un ffynhonnell NEU ddehongliad | **Materion cymdeithasol ac economaidd**<br>Un ffynhonnell NEU ddehongliad |

Bydd canolfannau yn gallu gosod yr eitemau hyn mewn i dempled pecyn asesu sydd ar gael i'w lawrlwytho o wefan CBAC.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Cwblhau'r asesiad

Bydd cyfnod o 4 awr 15 munud gan y dysgwyr i gwblhau'r asesiad Ceir awgrym ynghylch faint o amser y dylid ei dreulio ar bob cam, sydd ar gael ynghyd â'r holl gyfarwyddiadau asesu eraill yn y Pecyn Asesu Enghreifftiol ar gyfer Uned 4 (ar gael ar dudalen CBAC TGAU Hanes).

Gall dysgwyr gyflwyno eu hymateb i'r ymholiad yn eu fformat dewisol. Gellid cyflwyno hyn drwy ar bapur, drwy deipio'n ddigidol neu fel recordiad sain.

Mae templed asesu gwag dewisol ar gael i ganolfannau (ar gael ar dudalen CBAC TGAU Hanes). Yn y ddogfen hon, gall canolfannau lenwi'r 15 o eitemau a ddewiswyd cyn ei rhannu â dysgwyr i gwblhau'r asesiad.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Profiadau Dysgu

Dylid annog dysgwyr i ystyried y profiadau a'r sgiliau dysgu canlynol i ddatblygu eu dealltwriaeth, gwerthfawrogiad a'u hymwybyddiaeth o gynnwys y testun ymhellach. Mae'r wybodaeth yn y tabl isod yn darparu cyfleoedd i athrawon integreiddio'r profiadau dysgu yn rhan o'u proses o gyflwyno'r pwnc.

| Profiad Dysgu | Ymhelaethiad o'r Profiad Dysgu |
|---|---|
| gwneud defnydd priodol o dechnoleg ddigidol wrth gwblhau'r cymhwyster, er enghraifft drwy gyrchu deunydd ffynhonnell hanesyddol yn ddigidol | Dylid rhoi'r cyfle i ddysgwyr gael mynediad i archifau ar-lein o bob cwr o'r byd. Bydd hyn yn eu galluogi i gael gafael ar amrywiaeth o ddeunyddiau ffynhonnell fel llythyrau, dyddiaduron neu ddogfennau'r llywodraeth.<br><br>Gall dysgwyr hefyd ddefnyddio technoleg ddigidol i ymchwilio i'r pwnc astudio ac i feithrin eu dealltwriaeth o'r cyd-destun hanesyddol ymhellach.<br><br>Dylid annog dysgwyr hefyd i ddefnyddio amrywiaeth o fformatau digidol i gwblhau'r asesiad ei hun. |
| cymryd rhan mewn ymweliadau addysgol wyneb yn wyneb neu'n ddigidol | Dylai canolfannau ystyried a ellid ychwanegu at unrhyw un o'r pynciau a astudir drwy gynnal ymweliadau addysgol. Gallai hyn fod yn bersonol, os bydd canolfannau wedi dewis pynciau hanesyddol lleol, neu'n ddigidol.<br><br>Er enghraifft, mae gan Cadw amrywiaeth o Ymweliadau Rhithiol ar ei wefan: Ymweliadau Rhithiol - Cadw |
| meithrin empathi, goddefgarwch, cydymdeimlad a chwilfrydedd drwy astudio gwahanol gyd-destunau hanesyddol | Wrth gynllunio'r uned, dylai canolfannau ystyried sut mae'r pynciau a ddewisir yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr fyfyrio ar ddigwyddiadau a meithrin empathi, goddefgarwch, tosturi a chwilfrydedd. |
| gweithio ar y cyd | Bydd dysgwyr yn meithrin eu dealltwriaeth o safbwyntiau a chynnwys drwy ddadlau a thrafod. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Cyfleoedd i ymgorffori sgiliau trawsgwricwlaidd a themâu trawsbynciol y Cwricwlwm i Gymru

<table>
<tr><th colspan="2">Sgiliau trawsgwricwlaidd - Llythrennedd</th></tr>
<tr><td colspan="2">Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Llythrennedd mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys dadansoddi deunydd ffynhonnell, cyfleoedd ysgrifennu estynedig, datblygu geirfa, dadlau a thrafod. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr oherwydd y byddant yn meithrin sgiliau trawsgwricwlaidd a fydd yn sail i bedwar diben y Cwricwlwm i Gymru, yn ogystal â sgiliau cyfathrebu y gellir eu defnyddio ar draws pynciau gan eu paratoi ar gyfer addysg neu gyflogaeth yn y dyfodol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o'r ffordd y gellid ymgorffori Llythrennedd yn yr addysgu a dysgu ar gyfer TGAU Hanes.</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Gwrando</td><td>Caiff dysgwyr y cyfle i asesu cywirdeb a dibynadwyedd deunydd ffynhonnell a rhannu safbwyntiau drwy drafodaeth a dulliau cwestiynu llafar wrth gael eu haddysgu am gynnwys y fanyleb.</td></tr>
<tr><td>Enghreifftiau</td></tr>
<tr><td>• Caiff dysgwyr eu hannog i ddadlau ac ymateb i safbwyntiau eraill.<br>• Caiff dysgwyr gyfleoedd i wrando ar bodlediadau a recordiadau i ddatblygu eu geirfa a meithrin eu sgiliau gwrando.<br>• Mae'r defnydd o hanes llafar a chyfweliadau yn meithrin sgiliau gwrando a'r gallu i ymateb i eraill yn briodol.<br>• Caiff dysgwyr y cyfle i rannu ac ymateb i gyflwyniadau gan eu cyfoedion.</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Darllen</td><td>Caiff dysgwyr y cyfle i ddarllen deunydd ffynhonnell cyfoes ynghyd ag amrywiaeth o ddehongliadau hanesyddol, cyn gwerthuso'r ffynonellau yn feirniadol, dadansoddi eu cynnwys a chymharu a chyferbynnu ffynonellau sy'n canolbwyntio ar y dehongliad a roddir ganddynt o ddigwyddiadau.</td></tr>
<tr><td>Enghreifftiau</td></tr>
<tr><td>• Gall dysgwyr ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau darllen fel sgimio a sganio neu ddarllen ar gyfer diben.<br>• Darllen darnau o amrywiaeth eang o ffynonellau fel areithiau, erthyglau, darnau o ddyddiaduron, cofnodion hanesyddol a phapurau newydd.<br>• Cymharu a chyferbynnu cynnwys ffynonellau hanesyddol.<br>• Asesu dibynadwyedd a chywirdeb y testun i feithrin y sgìl o ddarllen yn feirniadol.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | |
|---|---|---|
| Siarad | Caiff dysgwyr y cyfle i feithrin eu dealltwriaeth o safbwyntiau a chynnwys drwy ddadlau, trafod, cyflwyniadau a gwaith grŵp. | |
| | **Enghreifftiau** | |
| | • Dadlau'r rheswm pwysicaf pam y digwyddodd digwyddiad<br>• Gofyn cwestiynau er mwyn egluro a meithrin dealltwriaeth.<br>• Gall dysgwyr feithrin sgiliau siarad drwy waith grŵp a gwaith mewn parau. | |
| Ysgrifennu | Caiff dysgwyr y cyfle i ddefnyddio amrywiaeth o eirfa pwnc benodol, iaith idiomatig a gallu cyflwyno eu gwaith yn ddigidol. Cânt gyfleoedd hefyd i fyfyrio ar strwythur a chynnwys eu gwaith hysgrifennu. | |
| | **Enghreifftiau** | |
| | • Dangos esiamplau o atebion drwy weithgareddau athro, cyfoedion a hunanasesu.<br>• Caiff dysgwyr y cyfle i ddefnyddio amrywiaeth eang o arddulliau ysgrifennu fel ffurfiol, anffurfiol a pherson cyntaf. | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

<table>
<tr><th colspan="2">Sgiliau trawsgwricwlaidd - Rhifedd</th></tr>
<tr><td colspan="2">Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Rhifedd mewn TGAU Hanes, er enghraifft dadansoddi newid yn y boblogaeth, dehongli ystadegau mewn ffynonellau sylfaenol ac eilaidd, dadansoddi graffiau a llinellau amser a mynd i'r afael â chysyniadau fel ymwybyddiaeth gronolegol. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn eu galluogi i roi digwyddiadau mewn cyd-destun a mesur newid. Gall dysgwyr lunio casgliadau seiliedig ar dystiolaeth sy'n seiliedig ar ystadegau a data rhifiadol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut gellid ymgorffori Rhifedd yn yr addysgu a'r dysgu ar gyfer TGAU Hanes.</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Mae dysgu am geometreg yn ein helpu ni i ddeall siâp, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli yn y byd go iawn</td><td>Caiff dysgwyr gyfleoedd i ddadansoddi mapiau i ddeall twf a datblygiad ymerodraethau neu gynrychioliad daearyddol o ryfeloedd.</td></tr>
<tr><td>Enghreifftiau</td></tr>
<tr><td>• Gall dysgwyr ddadansoddi mapiau, strwythurau ac arteffactau.<br>• Yna, gall dysgwyr ddadansoddi prosesau rhannu tir a chynllunio trefol.<br>• Ceir cyfleoedd i ddadansoddi strategaethau ac amddiffynfeydd milwrol.</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu ni i ddod i gasgliadau ac i wneud penderfyniadau gwybodus</td><td>Caiff dysgwyr gyfleoedd i archwilio neu ddadansoddi data a graffiau drwy ddadansoddi ffynonellau.</td></tr>
<tr><td>Enghreifftiau</td></tr>
<tr><td>• Gall dysgwyr ddadansoddi data i lunio casgliadau ar ystadegau fel twf poblogaeth, costau ac ehangu tir.<br>• Gellir dehongli deunydd eilaidd fel graffiau a siartiau.<br>• Ceir cyfleoedd i ddysgwyr greu eu cynrychioliadau rhifyddol eu hunain o'r data a gasglwyd.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| **Sgiliau Trawsgwricwlaidd – Cymhwysedd Digidol** | |
|---|---|
| Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Cymhwysedd Digidol mewn TGAU Hanes. Gall dysgwyr ddefnyddio technoleg ddigidol i gael gafael ar amrywiaeth eang o ffynonellau hanesyddol ac i ymchwilio i bwnc hanesyddol. Caiff dysgwyr y cyfle hefyd i feithrin eu sgiliau digidol wrth baratoi a chwblhau eu hasesiadau di-arholiad. Bydd y cyfleoedd hyn yn galluogi dysgwyr i feithrin sgiliau trawsgwricwlaidd sy'n ategu pedwar diben y cwricwlwm, ynghyd â galluogi mynediad pellach i wybodaeth hanesyddol wrth feithrin sgiliau meddwl creadigol ac ymwybyddiaeth foesegol presennol ac ar gyfer y dyfodol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut gellir ymgorffori Cymhwysedd Digidol yn yr addysgu a dysgu ar gyfer TGAU Hanes. | |
| | |
| Dinasyddiaeth | Bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth o bwysigrwydd priodoliadau, gan gynnwys defnyddio adnoddau mewn fformatau digidol fel e-lyfrau ac erthyglau ar-lein. Bydd yn ofynnol i ddysgwyr fynd i'r afael â phriodoliadau wrth ddadansoddi eitemau ar gyfer eu hymchwiliad hanesyddol a meddwl yn feirniadol am awduron tystiolaeth ddigidol. |
| | **Enghraifft** |
| | Dylid sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o hawlfraint a llên-ladrad wrth edrych ar dystiolaeth hanesyddol ac wrth ddatblygu a chyflwyno eu dadleuon eu hunain mewn perthynas â phwnc. |
| | |
| Rhyngweithio a Chydweithio | Gall dysgwyr gydweithio (yn ddigidol) ar dasgau wrth baratoi ar gyfer yr arholiad. Gallai hyn gynnwys asesiadau cyfoedion, ymateb i adborth yr athro neu greu gwaith. |
| | **Enghraifft** |
| | Mewn grwpiau, gallai dysgwyr ymchwilio i bwnc er mwyn cyflwyno maes astudiaeth a'i gyflwyno. |
| | |
| Cynhyrchu | Bydd cyfleoedd i ddysgwyr ymchwilio i amrywiaeth o ffynonellau yn ddigidol a gallent feithrin sgiliau digidol wrth greu asesiadau di-arholiad os byddant yn penderfynu cwblhau ymholiad mewn fformat digidol. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Defnyddio archifau cenedlaethol a rhyngwladol i ddod o hyd i ddeunyddiau sy'n cysylltu â'r maes astudiaeth.<br>• Cwblhau camau'r asesiad gan ddefnyddio technoleg ddigidol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

<table>
<tr><th colspan="2">Sgiliau Cyfannol</th></tr>
<tr><td rowspan="3">Creadigrwydd ac Arloesi</td><td>Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Creadigrwydd ac Arloesi mewn TGAU [Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr er mwyn iddynt ymddiddori mwy yn y gwersi a mwynhau dysgu drwy dasgau sy'n eu hysgogi. Caiff dealltwriaeth ddyfnach ei meithrin drwy annog dysgwyr i gymryd rôl weithredol yn eu dysgu.</td></tr>
<tr><td>Enghreifftiau</td></tr>
<tr><td>• Bydd dysgwyr yn dangos creadigrwydd wrth ddatblygu ymatebion, mynegi eu barn am faterion hanesyddol perthnasol a gwerthuso ffynonellau a thystiolaeth yn feirniadol mewn asesiadau.<br>• Caiff dysgwyr gyfleoedd i fod yn greadigol ac i arloesi wrth gyflwyno gwybodaeth a chanfyddiadau.</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau</td><td>Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn datblygu'r gallu i feddwl yn ddadansoddol, ac i gasglu tystiolaeth, myfyrio arni a'i gwerthuso'n feirniadol er mwyn llunio barn wybodus ar amrywiaeth o bynciau. Gellir cymhwyso'r sgìl hwn i senarios bywyd go iawn.</td></tr>
<tr><td>Enghreifftiau</td></tr>
<tr><td>• Caiff dysgwyr gyfleoedd i ofyn cwestiynau ystyrlon ar ddeunydd ffynhonnell a dehongliadau hanesyddol, ac i'w gwerthuso fel rhan o'u proses o ddatblygu dadleuon beirniadol perthnasol.<br>• Bydd dysgwyr yn datblygu eu gallu i weld materion o sawl safbwynt.<br>• Drwy astudio parhad a newid dros amser, bydd dysgwyr yn meithrin eu sgiliau datrys problemau y gallant eu cymhwyso yn eu bywydau yn y dyfodol.<br>• Bydd dysgwyr yn gwerthuso ffynonellau a dehongliadau hanesyddol o ran dibynadwyedd, rhagfarn a diben.<br>• Mae meddwl yn feirniadol a datrys problemau yn annog dysgu annibynnol ac yn hyrwyddo'r gallu i ddod i benderfyniadau rhesymol a gwybodus mewn agweddau eraill ar fywyd fel addysg bellach neu waith.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | |
|---|---|
| Cynllunio a Threfnu | Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Cynllunio a Threfnu mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am fod y sgiliau cyfannol hyn yn galluogi dysgwyr i ymgysylltu â'r gorffennol, dadansoddi gwybodaeth a chyfathrebu â'u canfyddiadau, sydd wedyn yn galluogi dysgwyr i wella eu dealltwriaeth academaidd a'u paratoi i gymhwyso gwybodaeth hanesyddol mewn cyd-destunau modern.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut gellid ymgorffori Cynllunio a Threfnu yn yr addysgu a'r dysgu ar gyfer TGAU Hanes. |
| | **Enghraifft** |
| | • Caiff dysgwyr gyfleoedd i gynllunio ac yna gwblhau eu hymateb i gwestiwn ymholi. |
| | |
| Effeithiolrwydd Personol | Mae sawl cyfle i gynnwys Effeithiolrwydd Personol mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn datblygu gwydnwch a'r gallu i weithio'n effeithiol. Mae hyn yn helpu i feithrin sgiliau rheoli amser dysgwyr a'r gallu i flaenoriaethu tasgau, gan wella gallu dysgwyr i ddod yn unigolion hyblyg. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Bydd dysgu am bynciau a allai fod yn sensitif yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu deallusrwydd emosiynol a'u hymwybyddiaeth hanesyddol.<br>• Bydd cyfleoedd i gael asesiadau gan gyfoedion, hunanasesiadau ac asesiadau gan athrawon yn annog dysgwyr i ddatblygu strategaethau effeithiol i wella eu gwaith.<br>• Cydweithio ar dasg ymchwil neu gyflwyniad.<br>• Datblygu gwydnwch drwy adolygu ac ailfodelu atebion.<br>• Mae cyfleoedd i ddysgwyr fynegi eu barn am faterion hanesyddol perthnasol, deunyddiau ffynhonnell cyfoes a dehongliadau hanesyddol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025